



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Arloesi

## Electroimpact

Cyllid arloesi yn hwyluso contract mawr ac yn hybu twf cwmni awyrofod yng ngogledd Cymru



System weithgynhyrchu a grëwyd yn Electroimpact, yng Nglannau Dyfrdwy, ar gyfer cydrannau awyren newydd sbon yn Tsieina

Sefydlwyd y cwmni awtomatiaeth awyrofod, Electroimpact, ym 1986, ger ffatri Boeing Everett yn nhalaith Washington yn yr UD, fel cyflenwr offer peiriannau yn bennaf. Mae wedi bod yn ehangu ei weithrediadau a'i gronfa cleientiaid ers hynny ac, yn 2002, agorodd y cwmni swyddfa loeren yn Sir y Fflint, gogledd Cymru, i gynorthwyo Airbus yn bennaf.

Mae Electroimpact bellach yn gwmni byd-eang sy'n darparu systemau cydosod awyrennau awtomataidd i rai o gwmnïau awyrofod a gofod blaenllaw'r byd, gan gynnwys Airbus, Boeing, NASA a SpaceX.

Yn 2014, enillodd contract arloesol, proffidiol i sefydlu system gweithgynhyrchu adenydd gyflawn ar gyfer yr awyren newydd, COMAC C919, a oedd yn cael ei greu gan y cwmni awyrofod o Tsieina, XAC.

Roedd ychydig o'r gwaith ar y system o Tsieina, fel offer cydosod yr adenydd, ar y ffordd i Sir y Fflint, ond roedd y cwmni angen arbenigedd dylunio arbenigol i gynorthwyo rhai o'i oddeutu 100 o beiranyddion. Gan gydnabod y

### Cyflawniadau allweddol:

- Cydnabod yr angen i ehangu ei arbenigedd dylunio a thechnoleg i gefnogi twf busnes yn y dyfodol.
- Cyflwyno system weithgynhyrchu awyrennau broffidiol ac arloesol yn Tsieina.
- Cyflogi 44 aelod newydd i staff yn y tair blynedd ers gwneud cais am gymorth arloesi.
- Ehangu'r eiddo ac adeiladu adeilad cydosod newydd, gyda chymorth ychwanegol Llywodraeth Cymru.

byddai'r cymorth hwn yn fuddsoddiad yn nyfodol Electroimpact, cytunodd Llywodraeth Cymru i gyfrannu £80,000 i helpu i dalu am yr arbenigedd, ac felly, gwella ei brosesau gweithgynhyrchu.

Ar ôl sicrhau'r arbenigedd ychwanegol oedd ei angen, llwyddwyd i gwblhau'r dyluniadau ar gyfer y system weithgynhyrchu. Ym mis Gorffennaf 2017, anfonwyd 34 cynhwysydd cargo o osodion ac offer cydosod ar gyfer y cydosodiadau ymylon ôl a blaen adenydd i Tsieina i'w gosod a'u comisiynu.

Mae'r tîm arloesi hefyd wedi helpu i gyfeirio'r cwmni at fecanweithiau cymorth busnes eraill Llywodraeth Cymru. Llwyddodd Electroimpact i sicrhau cyllid ychwanegol i ehangu ei eiddo, ac adeiladu adeilad cydosod bae uchel newydd. Fe'i cwblhawyd yn 2017. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cymorth yn flaenorol ar gyfer hyfforddiant ac mae'n cynghori'r cwmni ar arallgyfeirio i'r diwydiant ynni niwclear – sector y mae Electroimpact yn awyddus i'w archwilio.

Mae cyllid arloesi yn cefnogi amcanion allweddol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, yn enwedig creu Cymru fwy ffyniannus. Er nad oes modd mesur effaith economaidd lawn y prosiect eto, cyflogodd y cwmni 44 o bobl ychwanegol yn ystod y gwaith hwn. Mae'n gobeithio y bydd y wybodaeth a enillwyd, gyda chymorth Llywodraeth Cymru, yn ei alluogi i gymryd rhan mewn amrywiaeth ehangach o raglenni awyrennau yn y dyfodol, a fydd yn arwain at ehangu pellach a chreu swyddi yng Nghymru.

“Roedd gennym ni 100 o weithwyr pan gyflwynom y cais cyntaf am gyllid arloesi. Mae gennym ni 144 o weithwyr nawr. Er nad y cyllid arloesi ei hun sy'n gyfan gwbl gyfrifol am hynny, mae wedi cael effaith sylweddol. Rydym ni wedi gwella ein set sgiliau a'n cyfleusterau, a gobeithio y bydd hyn yn ein helpu ni i ysgogi mwy o fusnes yn yr ardal a chreu mwy o swyddi tra medrus, felly, gall hyn ond bod yn gadarnhaol. Byddem yn argymhell yn fawr gweithio gyda Llywodraeth Cymru gan fod nifer o gyfleoedd cyllido ar gael ar gyfer busnesau.”

**Andy Smith, Electroimpact.**

**Busnes | Business  
Cymru | Wales**

I wybod rhagor am gyllid a chymorth gan Lywodraeth Cymru  
03000 6 03000 | [innovation@llyw.cymru](mailto:innovation@llyw.cymru)  
[businesswales.gov.wales/cy/innovation](http://businesswales.gov.wales/cy/innovation)



UNDEB EWROPEAIDD  
EUROPEAN UNION



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

**Cronfa Datblygu  
Rhanbarthol Ewrop  
European Regional  
Development Fund**